NICE National Institute for Health and Care Excellence

# Regorafenib gyfer carsinoma hepatogellog datblygedig a gafodd ei drin yn flaenorol

9 Ionawr 2019

Mae regorafenib (Stivarga) ar gael gan y GIG. Mae'n driniaeth bosibl ar gyfer carsinoma hepatogellog datblygedig ymhlith oedolion sydd wedi cael sorafenib a bod ganddynt y canlynol:

- tiwmor na ellir ei dynnu'n llwyr drwy lawdriniaeth
- nam gradd A Child-Pugh ar yr iau/afu
- statws Eastern Cooperative Oncology Group o 0 neu 1.

Os nad ydych yn gymwys i gael regorafenib, ond eich bod eisoes yn ei gymryd, dylech allu parhau nes y byddwch chi a'ch meddyg yn penderfynu ar yr adeg orau i roi'r gorau i'w gymryd.

### A yw'r driniaeth hon yn addas i mi?

Dylai eich gweithwyr gofal iechyd proffesiynol roi gwybodaeth glir i chi, trafod eich opsiynau â chi a gwrando'n ofalus ar eich barn a'ch pryderon. Gall eich teulu fod yn rhan o'r broses hefyd, os ydych yn dymuno. Darllenwch ragor am wneud penderfyniadau am eich gofal.

### Cwestiynau i feddwl amdanynt

- Pa mor dda y mae'n gweithio o gymharu â thriniaethau eraill?
- Beth yw'r risgiau neu'r sgîl-effeithiau? Pa mor debygol ydynt?
- Sut y bydd y driniaeth yn effeithio ar fy mywyd o ddydd i ddydd?
- Beth fydd yn digwydd os na fydd y driniaeth yn gweithio?
- Beth fydd yn digwydd os nad wyf eisiau'r driniaeth? A oes triniaethau eraill ar gael?

### Gwybodaeth a chymorth

Gall gwefan y GIG fod yn lle da i gael gwybod mwy.

Gall y sefydliadau hyn roi cyngor a chymorth i chi:



© NICE 2019. All rights reserved. Subject to Notice of rights.

- Ymddiriedolaeth Afu/Iau Prydain, 0800 652 7330
- Ymchwil Canser y DU, 0808 800 4040
- Cymorth Canser Macmillan, 0808 808 000

Gallwch hefyd gael cymorth gan eich grŵp Gwarchod Iechyd lleol.

Nid yw NICE yn gyfrifol am ansawdd na chywirdeb unrhyw wybodaeth neu gyngor a roddir gan y sefydliadau hyn.

ISBN: 978-1-4731-3220-7



© NICE 2019. All rights reserved. Subject to Notice of rights.